| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cabinet |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 25 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Gadd, Prif Gyfrifydd |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid (Awst - 2018/19)** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor, a chadarnhau'r cyllidebau gwasanaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer 2018/19.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir y camau gweithredu canlynol:

3.1 Bod Aelodau'r Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arni.

3.2 Bod Aelodau'r Cabinet yn cymeradwyo diddymu dyled hanesyddol sy'n gyfanswm o £26k.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2018/19 fel y nodwyd yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £194.418 miliwn (£189.252 miliwn yn 17/18). Rhagwelir y bydd gorwariant o £0.811 miliwn ar gyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (gorwariant o £1.210miliwn yn yr adroddiad diwethaf. Mae'r naratif o amgylch y risgiau a'r rhagdybiaethau presennol sy'n sail i'r asesiad hwn yn cael eu hamlinellu yn Adran 6.

Roedd cyllideb 2018/19 angen nodi a chytuno ar arbedion ac effeithlonrwydd o £4.6 miliwn. Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o sut cafodd y targed arbedion ei gyflawni. Gellir cadarnhau bod y £2 filiwn o ganlyniad i newidiadau yn y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw a'r £1 miliwn o arbedion corfforaethol ehangach eisoes wedi eu cyflawni. Cytunwyd ar effeithlonrwydd gwasanaeth o £1.2 miliwn ac arbedion o £0.4 miliwn fel rhan o'r gyllideb a dangosir yn **Atodiad 2**. Gan fod yr arbedion effeithlonrwydd yn ffurfio rhan o 'fusnes fel arfer' ar gyfer gwasanaethau yna tybir y bydd y rhain yn cael eu cyflawni. Bydd unrhyw eithriad yn cael ei adrodd wrth y Cabinet. Bydd yr arbedion gwasanaeth yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf ac adroddir ar gynnydd i'r Cabinet.

| Arbedion/Effeithlonrwydd y cytunwyd ar gyfer 2018/19 | £000 | %oed |
|---|---|---|
| Newidiadau i IsafswmDarpariaeth Refeniw | 2,000 | 43% |
| Arbedion Corfforaethol a nodwyd yn 2017/18 | 1,000 | 22% |
| Effeithlonrwydd Gwasanaeth (gweler Atodiad 2) | 1,200 | 26% |
| Arbedion Gwasanaeth (Gweler Atodiad 2) | 411 | 9% |
| Cyfanswm | 4,611 | 100% |

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae naratifau gwasanaethau pwysig yn egluro amrywiant a risgiau i'w gweld yn y paragraffau isod.

**Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata** yn gorwario £49,000 (adroddwyd £50,000 ym mis Mehefin). Mae'r pwysau i raddau helaeth yn sgil y costau staff a ragwelir yn ymwneud â llenwi dros gyfnodau mamolaeth.

**Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd Priffyrdd a'r Amgylchedd** yn gorwario £98,000 (adroddwyd £132,000 yn y cyfarfod Cabinet diwethaf) sy'n ymwneud â diffyg a ragwelir yn yr incwm ar gyfer y tîm Prosiectau Mawr. Mae hon wedi bod yn broblem dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prif reswm dros y diffyg incwm yn ymwneud â chyfanswm y gwaith ac ad-daliad gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Mae'r gostyngiad ers yr adroddiad diwethaf yn ymwneud â gostyngiad wedi'i gynllunio mewn costau staff asiantaeth. Dylid hefyd nodi'r meysydd pryder a ganlyn:

- **Cludiant i'r Ysgol** – bydd y gwasanaeth yn derbyn arian ychwanegol yn dilyn blwyddyn lawn o weithredu'r polisi cludiant diwygiedig. Bydd hyn yn ddigonol i ddarparu'r gwasanaeth am nifer cyfartalog o ddyddiau fesul blwyddyn academaidd. Ni fydd effaith cynnydd prisiau mewn blwyddyn yn hysbys nes bydd y contractau ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19 wedi eu cwblhau ym mis Medi ac adroddir i'r Cabinet ym mis Hydref.
- **Gwastraff** – Mae llawer o wahanol bwysau yn effeithio ar y gwasanaeth gwastraff sydd wedi eu codi yn y Bwrdd Cyllideb. Mae rhan fwyaf y pwysau yn ymwneud â ffioedd contractau newydd ar gyfer y contract gwastraff ailgylchadwy cymysg. Bydd y pwysau yn 2018/19 yn cael ei gyllido o Gronfa Wrth Gefn Gwastraff ac mae pwysau ar y gyllideb o £850k wedi'i gynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20. Mae adolygiad manwl o'r arbediad gwasanaeth HES SP001: Gwasanaeth Cludo Gwastraff Masnach drwy gontractwr allanol yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i asesu a yw'r arbediad wedi'i gyflawni'n llawn.

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd **Addysg a Gwasanaeth Plant** yn gorwario o £1.204 miliwn (£1.027 miliwn yn adroddiad mis Mehefin). Mae'r symudiad o £0.177 yn ymwneud â'r meysydd canlynol:

- £34k o gynnydd mewn costau o Awdurdod Lleol cyfagos yn ymwneud ag 1 disgybl
- Costau gadael o £15k nawr yn cael eu rhagweld o ganlyniad i doriad mewn arian grant gan Lywodraeth Cymru.

- £98k yn ymwneud â chynnydd mewn costau maethu a remandio o fewn Gwasanaethau Plant
- £30k o gostau tiwtor Addysg yn y Cartref o ganlyniad i benderfyniad tribiwnlys sy'n ymwneud ag un achos.

Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes risg uchel oherwydd natur gyfnewidiol niferoedd achosion a phwysau chwyddiannol ar gostau lleoliadau. Gall pob lleoliad unigol fod yn arbennig o ddrud ac felly gall unrhyw gynnydd mewn niferoedd gael effaith fawr ar y gyllideb. Fodd bynnag, mae amcanestyniad y canlyniad terfynol yn cynnwys yr holl leoliadau cyfredol y tu allan i'r sir a ragwelir i amserlenni realistig. Mae lleoliadau Addysg Tu Allan i'r Sir ac adenillon yn llai na'r hyn oedd yn y gyllideb yn sgil y gostyngiad yn niferoedd y disgyblion o Awdurdodau Lleol eraill sy'n mynd i ddarpariaeth ysgolion arbennig y Cyngor. Cafodd y ddau bwysau yma eu cyllido'r llynedd drwy'r defnydd a gynlluniwyd o gronfeydd wrth gefn penodol a chawsant eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 18/19 a chytunwyd ar y pwysau ariannu o £750,000 gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae'r gorwariant a adroddwyd yn cynnwys y cyfraniad hwn i'r gyllideb a chydnabyddir fod angen rhagor o waith i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hyn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 a'r tu hwnt.

**Rhagwelir y bydd y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol** yn cydbwyso'i gyllideb wedi i gyllideb ychwanegol o £750,000 gael ei dyrannu ar gyfer 2018/19 a'r cynllun o ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Mae gorwariant o fewn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Darparwyr Mewnol yn parhau i fod yn feysydd lle mae pwysau mawr. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys gofyniad cyllideb dybiedig o £500,000 yn ychwanegol y flwyddyn er bod gwaith pellach yn mynd yn ei flaen i asesu'r goblygiadau ariannol llawn a nodi gweithredoedd i helpu lliniaru effaith y pwysau hyn.

**Ysgolion** - Bydd y sefyllfa o ran Balansau Ysgolion yn dal i gael ei monitro'n agos, gydag adroddiadau i'r Aelodau bob mis. Mae Cyllid Addysg yn gweithio'n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarn ac, yn ogystal, mae prif ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu'r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam gweithredu yn ôl yr angen. Roedd y gyllideb a gytunwyd gan y Cyngor ar gyfer 2018/19 yn ddiweddar yn cynnwys buddsoddiad ychwanegol o £1.8 miliwn yng nghyllidebau dirprwyedig ysgolion. Mae lefel y balansau ysgol a ddygwyd ymlaen i 2018/19 yn falans diffyg net o £0.343miliwn, sy'n welliant o £0.713miliwn ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Ar ddiwedd Awst, mae'r amcanestyniad ar gyfer balansau ysgol yn falans diffyg net o £0.957miliwn, sy'n gynnydd yn y diffyg a ragwelir o £0.614miliwn ar y balansau a ddygwyd ymlaen o 2016/17. Rhagwelir y bydd tanwariant o £52k yn y gyllideb heb ei dirprwyo o ganlyniad i danwariant ar gontractau TGCh.

**Y Cyfrif Refeniw Tai** Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn tybio y bydd gostyngiad mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £795 mil, sy'n £165mil yn fwy na'r gostyngiad o £630mil yn y gyllideb. Felly rhagwelir y bydd balansau'r Cyfrif Refeniw Tai yn £1.572 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gyllideb gyfalaf o £10.2 miliwn yn cael ei rhannu rhwng gwelliannau arfaethedig i'r stoc dai bresennol (£6 miliwn) a datblygiadau tai newydd (£4 miliwn).

**Corfforaethol –** Ar hyn o bryd amcangyfrifir y bydd cronfeydd corfforaethol wrth gefn sy'n gyfanswm o £500mil ar gael i'w rhyddhau er mwyn cyllido gorwariant y

gwasanaeth. Bydd hyn yn golygu y byddwn yn cyfyngu'r lefel o'r Balansau sydd angen eu defnyddio.

**Rheoli'r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Awst, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £208.753 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 4.49%. Roedd balansau buddsoddi yn £5.6 miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.54%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor ynghlwm yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf a gymeradwywyd yn £55.8 miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £13.5 miliwn. Mae **Atodiad 4** yn cynnwys diweddariad ar y prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf cyffredinol.

**Materion Eraill –** Roedd yna ddyled yn ddyledus i'r Awdurdod am grant wedi'i or-hawlio ac am waith i eiddo yn dyddio yn ôl i 2011. Er y gwnaed taliadau yn erbyn y ddyled mae yna falans o £26,481.43 sy'n ddyledus. Gwnaed pob ymdrech i adfer y ddyled ond cydnabyddir bellach na dderbynnir mwy o arian ac argymhellir bod y ddyled yn cael ei diddymu. Oherwydd oed y ddyled, mae'r Adran Gyllid wedi darparu ar gyfer y ddyled hon am nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn golygu na fydd diddymu'r ddyled hon yn cael unrhyw effaith ar y gyllideb refeniw gan y gellir diddymu'r ddyled yn erbyn y ddarpariaeth. Mae'r ddyled hon yn fwy na'r terfyn dirprwyedig o £20 mil i'r Swyddog Adran 151 ei gymeradwyo ac felly mae angen cymeradwyaeth y Cabinet.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?**

Cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Les ar gyfer yr arbedion yn Atodiad 2 a'r cynnydd yn Nhreth y Cyngor ei gyflwyno i'r Cyngor ar 30 Ionawr. Roedd asesiad ar gyfer y newid i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Medi 2017.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

Mae pwysau penodol yn parhau i fod yn amlwg yn y cyllidebau gofal cymdeithasol (Oedolion a Phlant) serch y buddsoddiad ychwanegol o £1.5 miliwn at ei gilydd ar gyfer 2018/19. Bydd sefyllfa'r ddau wasanaeth yn cael ei monitro'n ofalus a'i hystyried ymhellach fel rhan o broses y gyllideb 2019/20.

Bydd balansau ysgolion yn parhau i gael eu hadolygu’n ofalus. Mae Cyllid Addysg yn gweithio’n agos iawn gydag ysgolion i ddatblygu cynlluniau cadarn ac, yn ogystal, mae prif ac uwch swyddogion Addysg a Chyllid yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu’r cynlluniau hynny a chymryd unrhyw gam gweithredu yn ôl yr angen.

**10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae hwn yn parhau yn gyfnod ariannol heriol a bydd methu cyflawni’r strategaeth a gytunwyd o ran y gyllideb yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn y blynyddoedd ariannol presennol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.